| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | Mai 23ain 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag' |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad 'Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb y sefydliad wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad. Bydd **Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol (Amgylchedd)** yn mynychu'r cyfarfod i ymhelaethu ar yr ymateb, gosod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.